**LC613**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau i'w hystyried gan gynrychioliadau ysgrifenedig o wahanol geisiadau ac apeliadau sydd i'w hystyried gan y Cynulliad o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ceir un nam drafftio bach ac mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig iddo.

Daw hyn mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn rheoliad 2 sy'n gwneud darpariaeth i'r cyfeiriadau at adran 78 o Ddeddf Cynllunio gynnwys materion sy'n ymwneud â gorchmynion cadw coed.

Nid yw'r cyfeiriad at "fel y'i cymhwysir i geisiadau am orchmynion cadw coed" yn gywir. Credir y dylai'r geiriad gynnwys rhywbeth tebyg i -

> "... fel y'i cymhwysir i geisiadau a materion eraill o dan orchmynion cadw coed ..."

Dylid wedyn ychwanegu troednodyn yn nodi y cymhwysir adran 78 mewn perthynas â gorchmynion cadw coed gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref Coed 1999 (O.S 1999/1892).

Mae'r cyfryw gywiriad wedi cael ei gydnabod, ar ran y Gweinidog perthnasol, fel cywiriad angenrheidiol a'i fod yn addas i'w gynnwys mewn memorandwm cywiriadau.

**Sylwadau**

Yn rheoliad 2, yr arferiad cyffredin fyddai cynnwys y ddwy ddarpariaeth "cyfeiriadau at ..." ar ddiwedd y termau diffiniedig.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Chwefror 2003